# PREISIAID CERDDOROL GWENT

## HUW WILLIAMS yn cofio am gymwynasau'r brodyr o Rymni

FE DDYWEDIR bod teulu cerddorol mwya'r byd, sef teulu Bach yn yr Almaen, wedi codi hanner cant o gerddorion dros gyfnod o rhyw ddwy ganrif. A chawn ein hatgoffa ambell dro hefyd mai teulu cerddorol mwyaf Cymru oedd teulu'r Millsiaid o Lanidloes, a gododd dair cenhedlaeth o gymwynaswyr a ddaeth yn amlwg ym maes cerddoriaeth gysegredig y genedl.

Ond tybed a sylweddolodd Cymru eto ei dyled drom i nifer o deuluoedd cerddorol bychain, o bob rhan o'r wlad, y daeth eu henwau'n adnabyddus ar ei haelwydydd rhyw ganrif neu lai yn ôl? Un o'r teuluoedd hynny oedd teulu'r 'Preisiaid', y cofir yn arbennig am eu llafur eleni, a'r Brifwyl yn ymweld â'r de-ddwyrain ar un o'r achlysuron prin yn ei hanes.

Ac y mae'n briodol – ac yn arwyddocaol – mai yn yr Eisteddfod Genedlaethol y bwriodd dau o brif aelodau'r teulu hwnnw eu prentisiaeth gerddorol, ac mai hi hefyd a fu'n bennaf gyfrifol am ddod a hwy i'w hetifeddiaeth.

* * *

SYMUD i fyw i'r Rhymni a wnaeth rhieni John a Tom Price, William y tad o Randirmwyn, Sir Gaerfyrddin, a Mary y fam, o Nantbran, sir Frycheiniog. Erbyn chwedegau'r ganrif ddiwethaf, daethai'r Rhymni yn lle cerddorol iawn, yn bennaf trwy ymdrechion dynion fel William Williams (Gwilym Gwent) ac Edward Evans (Heman Gwent), a chan fod William a Mary Price yn aelodau o gorau a fyddai'n cystadlu'n gyson mewn eisteddfodau, ac yn perfformio cyfanweithiau cerddorol gan Handel ac eraill mewn 'cyngherddau uwchraddol' yn y Rhymni, ni pharodd syndod o gwbl mai at gerddoriaeth y gosododd y plant hefyd eu bryd yn gynnar iawn yn eu hanes.

Yn ieuanc iawn, yn ôl yr hanes, fe ymunodd John Price, y mab, hefyd â Chôr Gwent, a chael y fraint o fod yn un o'r cantorion cyntaf yng Nghymru i ganu rhai o'r cytganau mawr i gyfeiliant cerddorfa. Yn ŵr cymharol ieuanc, fe'i penodwyd ef yn arweinydd Côr Cymysg y Rhymni, a daeth ei enw'n adnabyddus i genedl gyfan ar bwys y cysylltiad hwnnw.

Cyfnod ei anterth ef fel arweinydd oedd cyfnod y bri mawr ar ganu corawl y genedl. Dyma'r cyfnod a gynhyrchodd arweinyddion corawl y daeth eu henwau'n llawn mor adnabyddus ag enwau ei phregethwyr a'i gwleidyddwyr i genedl gerddgar y dydd, yn eu plith Griffith Rhys Jones (Caradog), Aberdâr; Dan Davies, Merthyr; R.C. Jenkins, Llanelli; Cadwaladr Roberts, Blaenau Ffestiniog; Tom Stephens, y Rhondda; William Thomas, Treorci; Walter Protheroe, Pontypŵl; W.S. Owen, Caergybi; Wilfrid Jones, Wrecsam; a John Williams, Caernarfon.

Ac os oedd buddugoliaeth mewn Eisteddfod Genedlaethol yn brawf o ddawn unrhyw arweinydd yn y ganrif o'r blaen, yna yr oedd John Price y Rhymni yn uwch o'i ysgwyddau na'r mwyafrif o'i gyfoeswyr ym myd cerdd.

Arweiniodd Gôr y Rhymni i'w fuddugoliaeth fawr gyntaf ym Mhrifwyl Pontypridd yn 1893, pan drechwyd chwech o gorau eraill anferth eu maint, a chael y brif wobr ariannol o ddau can gini.

Yng Nghaernarfon y flwyddyn ddilynnol cafodd y Côr y brif wobr unwaith eto, pan ddaeth yn orau (allan o bump), ac yna yn Llanelli yn 1895, fe'i dyfarnwyd yn gyd-fuddugol â Chôr Merthyr yn y brif gysatdleuaeth i gorau rhwng 150 a 200 o leisiau, a ddenodd saith o gystadleuwyr.

Yn y ganrif ddiwethaf, 'roedd hon yn record unigryw yn hanes yr Eisteddfod Genedlaethol, a bu'n gyfrwng i ddyrchafu enw John Price y Rhymni i fri mawr fel arweinydd corawl y tu hwnt i'r gororau.

* * *

ROEDD Tom Price bedair blynedd yn iau na John ei frawd, ond gyda'i gefndir cerddorol rhywbeth yn debyg. Bu'n gweithio yn y lofa am ddeng mlynedd (rhwng deg ac ugain oed!), gan ymroi i astudio cerddoriaeth yn ei oriau hamdden. Ac yna, yn dilyn cyfnodau cymharol fyr y bu'n gweithio ar y rheilffordd ac fel trafaeliwr masnach, penderfynodd wneud cerddoriaeth yn yrfa iddo'i hun.

Ar ôl yr wythdegau, daeth ei enw'n adnabyddus iawn mewn cylchoedd cerddorol fel 'Tom Price Merthyr', ac wedi iddo gael ei benodi'n athro teithiol i ddysgu cerddoriaeth yn ysgolion uwchradd Morgannwg yn 1896, daeth galwadau mynych am ei wasanaeth o ddc a gogledd.

Er iddo dreulio rhai blynyddoedd prysur iawn fel beirniad ac fel arweinydd cymanfa, fel cyfansoddwr y rhagorodd, gan fwrw ei brentisiaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac ennill amryw o wobrau yn ystod y cyfnod 1887-1902, gan gynnwys y wobr o ddeg gini am rangan i gorau meibion yn y Brifwyl gyntaf i'w chynnal yng Nghasnewydd yn 1897.

Roedd hyn yn glod mawr i ŵr a gafodd o'i gefndir ef, yn enwedig pan gofir ei bod yn ffasiynol i lawer o wŷr a gafodd fanteision addysg gerddorol – a rhai wedi graddio mewn cerddoriaeth – gystadlu am wobrau'r Brifwyl yn y cyfnod hwnnw.

Cyfansoddodd Tom Price weithiau amrywiol, yn cynnwys anthemau, rhanganeuon, canigion, ychydig unawdau a deuawdau lleisiol, ac emyn-donau.

Gwelais gopïau o dros drigain o'i weithiau bychain, oddeutu eu hanner wedi cael eu cyhoeddi'n breifat gan y cyfansoddwr ei hun ym Merthyr Tudful, a'r gweddill gan saith o wahanol gyhoeddwyr, yn cynnwys cwmnïau adnabyddus megis Snell, Hughes a'i Fab, H.W. Sothey, Isaac Jones, ac E.A. Price, Cwmfelin-fach (lle y saif capel coffa Islwyn, Y Babell, a atgyweirwyd yn ddiweddar gan lanciau ifanc ar eu prawf!)

Gwerthwyd rhai miloedd o gopïau o'i weithiau mwyaf poblogaidd, yn cynnwys 'Am fod fy Iesu'n fyw' (anthem i leisiau cymysg SATB), 'Efe a ddaw' (anthem fuddugol Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1902 ar eiriau gan Elfed), 'Y Rhosyn unig' (unawd i lais soprano neu denor, ar eiriau Cymraeg gan T. Twynog Jeffreys, a gyflwynwyd i Gymdeithas y Cymreigyddion, y Rhymni, 1890), a 'Y Nant a'r blodeuyn' (rhangan SSA ar eiriau gan Elfed).

Gwelais hefyd gopïau o amryw o'i drefniannau, yn eu plith drefniant o'r gantawd *Jephthah* (o waith Thomas Davies, Glyn Ebwy), a erchwyd gan gwmni Snell, a hefyd osodiad o nifer o alawon Cymreig ar ffurf 'cadwyn' leisiau SA, ar eiriau gan Talhaiarn, Ceiriog, a Llew Tegid.

'Rwy'n cofio imi hefyd weld un tro gopi o'i drefniant o'r 'Delyn Aur' fel rhangan SA, ar eiriau Pantycelyn, a gyhoeddwyd tua' 1910. Cyhoeddiad byrhoedlog fu hwnnw, ac ni chydiodd yn nychymyg y genedl i'r un graddau ag y cydiodd trefniant D. Pughe Evans o'r un alaw ar gyfer lleisiau meibion TTBB.

* * *

OND ER mor boblogaidd fu llawer o weithiau bychain Tom Price, y tebyg yw mai fel awdur dau o gynhyrchion sylweddol eu maint yr enillodd ei blwyf fel cyfansoddwr.

Y cyntaf o'r rhain oedd cantawd ddramatig ac uchelgeisiol i oedolion (156tt.), wedi ei selio ar ddameg **Y Mab Afradlon** (liberto W.G. Williams, 'Glynfab') a gyhoeddwyd yn gyntaf gan y cyfansoddwr ei hun ym Merthyr yn 1891, ac yna gan gwmni Snell yn Abertawe ar ôl ei farw yn 1925.

Perfformiwyd y gwaith hwn ugeiniau o weithiau erbyn troad y ganrif bresennol, yr wyth tro cyntaf yn y Drill Hall, Merthyr, dros ŵyl Nadolig 1891.

Ar gyfer plant yr ysgrifennwyd y cyfanwaith mawr arall, sef cantawd neu opereta yn dwyn y teitl **Y Crwydriad**/*The Little Wanderers* (geiriau Cymraeg T. Twynog Jeffreys, y Rhymni, geiriau Saesneg, Jesse Taylor, Merthyr), ac y bu llawer o berfformio arni yn ystod blynyddoedd cyntaf y ganrif bresennol.

Roedd Tom Price yn ei elfen yn cynllunio gweithiau bychain hefyd ar gyfer plant y genedl. Un o'r rheini oedd **A.B.C.** sef alaw i blant wedi ei selio ar yr wyddor Gymraeg, ac at wasanaeth Ysgolion Sul ac Ysgolion Dyddiol y genedl, ar eiriau T. Twynog Jeffreys, a gyhoeddwyd gan y cyfansoddwr yn Merthyr.

Canu ei ffordd trwy fywyd a wnaeth Tom Price, er yn ddiau y bu ambell gyfnod yn ei hanes pan deimlai ei bod yn haws o lawer colli deigryn na phyncio cân. Cafodd fyw i weld newid mawr yn natblygiad cerddoriaeth Cymru, gydag ambell un a gafodd fantais addysg gerddorol braidd yn ddirmygus ohono ef a'i debyg, ac yn edliw nad oedd lle i gyfansoddwr wedi ei drwytho yn y Sol-ffa, a'i addysgu yn yr Ysgol Gân, ym mhatrwn cerddorol y genedl erbyn dauddegau'r ganrif bresennol.

Wrth ddilorni ambell gyfansoddwr, fe anghofiodd y beirniaid beth mewn gwirionedd oedd maint dyled y byd cerddorol i gyfansoddwyr hunan-addysgiedig. Oni fyddem i gyd ar ein colled pe bai gwŷr fel Richard Wagner, Hugo Wolf, ac Edward Elgar hefyd wedi aros yn fud?

### YN EISIAU

*E.D. Lewis: The Rhondda Valleys, a study in industrial development 1800 to the present day, Llundain, 1959.*

*Mr J.T. Jenkins, Tyddyn, Llangeler, Llandysul, Dyfed SA44 5EY. Ffôn: (0559) 370307.*